

Cyngor Cymuned Cerrig-y-Drudion  
Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 4ydd Dachwedd 2015

Presennol -Einion Edwards Cadeirydd, Menai Hughes , Guto G Jones Hefin Edwards, Prys Ellis, Alun Jones, Peter Lewis Cyng. Sir, Caerwyn Roberts Clerc.

Ymddiheuriadau – John D Jones, Helen Ellis  
Cofnodion. Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 15fed Fedi 2015

Datgan diddordeb. Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

Materion yn Codi :

[1] Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu'n bresennol. Cyfeiriodd y clerc at yr adroddiad a dderbyniwyd.

[a] Bod gyrrwr ieuanc wedi ei rybuddio ynglyn a nad oedd yn gwisgo helmet pan yn gyrru ar ei feic modur.

[b] Bod rhywun wedi dwyn bocs ar gyfer gadael cyfraniad o'r caffi ger Gwesty'r Saracens.

[c] Bod ffyrdd yn y Brenig yn cael ei defnyddio gan foduron oedd yn rasio.

[1.1] Llwybr Cyhoeddus Rhif 51 [Llwybr Bach]

Y Clerc i gysylltu i geisio sylwadau diweddera gan y Cyngor Sir.

[1.2] Trefnu ar gyfer Argyfwng

Eglurodd y clerc bod cyfarfod wedi ei drefnu ar gyfer 24ain Dachwedd 2015

[1.3] Gwasanaeth Sgip

Penderfynwyd trefnu sgip ar gyfer y Gwanwyn.

[1.4] Goleuadau Nadolig

Eglurodd y clerc iddo dderbyn neges gan swyddog o'r Cyngor Sir, nad oedd y goleuadau stryd yn addas ar gyfer gosod goleuadau Nadolig

[1.5] Arwyddion Cwn

Nodwyd nad oedd ateb pellach wedi ei dderbyn gan y Cyngor Sir.

[1.6] Hwylusydd Tai Gwledig

Y clerc i gysylltu gyda Buddug Williams ynglŷn a chrynodeb o ganlyniad y cyfarfod a gynhaliwyd yn y ganolfan ar y 25ain Fehefin.

[1.7] Traciau Beics

Cytunodd y Cyng. Peter Lewis i geisio darganfod map o'r traciau beics

[1.8] Banc HSBC Cerrig-y-Drudion

Nodwyd llythyr gan HSBC yn esbonio bod y banc yn edrych ar leoliadau ar gyfer peiriant arian parod. Y clerc i gysylltu gyda rheolwr HSBC bod y Cyngor Cymuned yn pryderu os i'r peiriant gael ei leoli ar fin yr A5 wrth Gesty'r Saracens, a hefyd i gynnig lleoliad ar sgwâr y pentref o flaen y clwb snwcer.

[1.9] Diffibrilydd

Nodwyd llythyr oddiwrth Mr Tomos Hughes yn ceisio cyfraniad ar gyfer gosod diffibrilydd yn y llan. Y clerch i anfon gair ato fod y Cyngor yn barod i ystyried cyfraniad os bydd angen.

[2] CAB Cylch Conwy

Nodwyd llythyr yn ceisio cyfraniad. Y clerch i wneud ymholiadau ynglŷn â darparu gwasanaeth yn lleol. Nodwyd hefyd cynnig gan y Prif Weithredwr i gwrdd â'r Cyngor. Penderfynwyd anfon gwahoddiad iddo i gyfarfod nesaf y Cyngor.

[2.1] Llyfrgell Cerrig

Eglurodd y clerch bod angen trosglwyddo arian i gynnal parhad y gwasanaeth. Penderfynwyd trosglwyddo £500.00

[2.2] Biniau yn y Llan

Deallwyd bod y biniau wrth y Shelter a siop Banc Buildings gynt wedi ei symud. Y clerch i wneud ymholiadau gyda'r Cyngor Sir.

[2.3] Yfed dan Oed

Mynegwyd pryder bod yfed o dan oed yng Westy'r Saracens. Y clerch i anfon y neges ymlaen i SCHG Aimie Clayton

[2.4] Arwydd "Ysgol Pentrellyncymer"

Deallwyd bod yr arwydd wedi ei guddio gan dyfiant coed. Y clerch i dynnu'r mater i sylw'r Cyngor Sir.

[2.5] Dwr Cymru

Nodwyd ateb yn dilyn cwyn gan y Cyngor ynglŷn a chyflenwad dwr yng Nghefn Brith. Deallwyd bod cynllun tymor hir i wneud gwelliannau yn ystod y 4 blynedd nesaf.

[2.6] Nodwyd y wybodaeth canlynol

[a] Gorchymyn Cysylltiad Ffermydd Gwynt Gogledd Cymru. Hysbysiad o Ddarpariaeth ar Gyfer Cais Gorfodol o Safbwynt Tir Ychwanegol.

[b] Gwobrau Chwaraeon Cyngor BS Conwy, 27ain Dachwedd 2015

Cadeirydd \_\_\_\_\_